# HUGHES, JOHN EDWARD (1879 - 1959), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** John Edward Hughes
**Dyddiad geni:** 1879
**Dyddiad marw:** 1959
**Priod:** Mary Hughes (née Jones)
**Priod:** Ada Hughes (née Davies)
**Rhiant:** Jane Hughes
**Rhiant:** John Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 8 Mehefin 1879 yn y Gronglwyd, Cerrigydrudion, Sir Ddinbych, mab John a Jane Hughes. Addysgwyd ef yn ysgol y pentref, ysgol ramadeg y Bala, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth (lle graddiodd yn y celfyddydau), a Choleg Diwinyddol y Bala (lle graddiodd mewn diwinyddiaeth). Ei gydletywr yn Aberystwyth oedd ei gyfyrder, R.T. Jenkins - wedi hynny ei gyd-frawd-yng-nghyfraith. Dechreuasai bregethu yn 1899, ac ordeiniwyd ef yn 1907. Bu'n gweinidogaethu yn Engedi, Ffestiniog (1906-12), ac yn Horeb, Brynsiencyn a Phreswylfa, Llanddaniel, Môn (1913). Priododd (1), 1907, Ada Davies, Aberystwyth, a fu farw ymhen ychydig flynyddoedd; priododd (2), 1920, Mary Jones o Borth Amlwch; ganwyd un mab o'r briodas gyntaf, a thri mab o'r ail briodas. Bu farw 10 Ebrill 1959 yn ysbyty Anfield, Lerpwl, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llanidan.

Yr oedd J.E. Hughes yn ddiwinydd go graff. Ei ysgrifau ar ' Berson Crist ' yn *Y Traethodydd* a dynnodd sylw'r Dr. John Williams, Brynsiencyn, ato ac ef a anogodd eglwys Brynsiencyn i roi galwad iddo. Yn ogystal ag ysgrifennu i'r *Traethodydd*, *Y Drysorfa*, a'r *Goleuad*, cyhoeddodd esboniad ar Efengyl Mathew yn ddwy gyfrol (1937-38). Golygodd hefyd *Hanes dechreuad a chynnydd Methodistiaeth ym Mrynsiencyn* (1924). Yr oedd yn bregethwr praff a sylweddol. Ymroes i wasanaethu'i Gyfundeb mewn llawer cylch, a bu'n llywydd Sasiwn y Gogledd yn 1957.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


H. Ellis, *Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionydd* (1891, 1899, 1928), 3 (1928), 93 a 97

R. T. Jenkins, *Edrych yn ôl* (Llundain 1968) (1968), 15

*Y Goleuad*, 15, 22 a 29 Ebrill 1959

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1960, 267-8

H. Ll. Williams (gol.), *Braslun o Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Môn 1935–70* (1977) (1977), 224-6

gwybodaeth gan ei fab, Medwyn Hughes, Llandegfan


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 39171565

Wikidata: Q20804717


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu